
Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 16 Haf 2011




***John Elias yn pregethu yn y Gymanfa***

Annwyl ffrindiau,

A glywsoch chi sôn am eglwys yn gohirio cynnal oedfa ar y Sul am nad oedd yr Ysbryd Glân yn bresennol yn eu plith? Naddo, mae'n siŵr. Ond beth petai'n rhaid wrth bresenoldeb yr Ysbryd cyn y gellid cynnal unrhyw oedfa neu gyfarfod eglwysig? Beth petai hynny'n cael ei wneud yn un o reolau euraid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, neu unrhyw enwad arall o ran hynny? Tybed wedyn faint o'n capeli a fyddai'n gorfod cau eu drysau, am nad oedd yr Ysbryd i'w ganfod yn gweithio'n rymus ar eneidiau?

Yn yr ail bennod o Lyfr yr Actau ceir darlun o'r eglwys gynnar yn Jerwsalem. Sonnir am ddyfodiad yr Ysbryd Glân ar yr apostolion ar ddydd y Pentecost ac fel y cafodd tua thair mil o bersonau eu hychwanegu at yr Eglwys yn dilyn araith rymus ac ysbrydoledig Pedr. Roedd y rhain wedi ymuno â chymdeithas yr apostolion, yn y torri bara ac yn y gweddïau. Heb amheuaeth, o ganlyniad i'r Sulgwyn cyntaf hwnnw, fe gafodd y credinwyr eu tanio â nerth yr Ysbryd Glân. Gwelwyd 'rhyfeddau ac arwyddion lawer' yn eu plith ac yr oedd 'ofn ar bob enaid'. Rhyfeddai pobl at y nerth a'r egni ysbrydol a fodolai yn eu mysg ac at y bywiogrwydd a'r ffresni a nodweddai eu haddoliad. Yr adnoddau ysbrydol yma a alluogodd y credinwyr i fentro pethau mawr yn enw eu Harglwydd ac i ddisgwyl pethau mawr yn ôl oddi wrtho. Drwy'r Ysbryd dwysbigwyd pobl i'r fath raddau nes iddynt ddod i ffydd yn Iesu. Fe'u hargyhoeddwyd o bechod, cyfiawnder a barn. Daeth yr apostolion a gweddill y credinwyr i berthynas newydd â Christ ac â'i gilydd. Wedi profiadau'r Pentecost gwelwyd hwy'n tystio'n hy a dewr i'w Gwaredwr ac fe'u llanwyd hwy oll â'r profiad newydd o ennill y byd i Grist.

Ond tybed a ddeuai pobl i'r casgliad fod Mab Duw yn fyw ac yn bresennol drwy ei Ysbryd wrth edrych ar ein heglwysi heddiw? A welir rhyfeddodau yn ein plith? A yw'r Ysbryd ar waith yn achub eneidiau? A pha mor barod ydym fel aelodau o'r Eglwys i fentro popeth yn enw'r Iesu? Mae'n wir bod yna ddigon o bregethu a phwyllgora, ond rhy ychydig o nerth Duw ar waith ym mywydau pobl i gyd-fynd â'r siarad.

Pwysleisiodd yr Apostol Paul wrth ysgrifennu at yr eglwys yn Thesalonica: ‘oherwydd nid ar air yn unig y daeth atoch yr Efengyl yr ydym ni yn ei phregethu, ond mewn nerth hefyd, ac yn yr Ysbryd Glân, a chydag argyhoeddiad mawr.’ (1 Thesaloniaid 1:5). Ond a yw’r nerth hwnnw i’w deimlo’r dyddiau hyn? Rhaid cydnabod mai di-fywyd iawn yw ein tystiolaeth ar y cyfan. Fel y dywedodd un diwinydd Almaenig, ‘mae yna ormod o Gristnogion yn ymddwyn fel pe baen nhw wedi’u bedyddio mewn “syrup” ’. Ac onid ‘halen y ddaear’ yr ydym i fod, ac nid siwgwr-candi!

Eto i gyd, Ysbryd sy’n adnewyddu a bywhau yw’r Ysbryd Glân bob amser. Oni wireddwyd hynny fwy nag unwaith yn hanes ein cenedl? Oni welwyd yr Ysbryd ar adegau o dywyllwch a marweidd-dra yn dwyn bywyd a brwdfrydedd i eneidiau colledig a thrist? Do, fe fu amser pan oedd yr Ysbryd yn carlamu drwy ein gwlad, gan ‘siglo muriau’r tŷ, a phlygu dynion cry’ ’. Gadawodd ei ôl mewn dyddiau o ddiwygiadau crefyddol mawr drwy greu calonnau newydd yn yr ‘esgyrn sychion’. Cododd ein cenedl ar ei thraed yn ‘fyddin gref’.

Fel y gwyddoch mae’n siŵr, rydym fel Corff yn dathlu dau ganmlwyddiant ordeinio ein gweinidogion cyntaf eleni. Roedd dechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod pan oedd yr Ysbryd ar gerdded yn ein tir. Ein taer weddi yw y gwelir ei nerth a’i ddylanwad unwaith eto yng Nghymru, mewn dyddiau pan fo’r Efengyl yn marwlosgi yn ein cymunedau a’r Beibl yn llyfr coll ar ein haelwydydd.

Doed awel gref i’r dyffryn
  lle ’rŷm fel esgyrn gwyw
yn disgwyl am yr egni
  i’n codi o farw’n fyw;
O na ddôi’r cyffro nefol
  a’r hen orfoledd gynt
i’n gwneuthur ninnau’n iraidd
  yn sŵn y sanctaidd wynt.

(*John Roberts*)

Yr eiddoch yng Nghrist
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

Wyt ti'n gallu gweld beth sy'n wahanol yn y ddau lun?
Cafodd ffrindiau Iesu rodd arbennig – yr Ysbryd Glân.



Lliwiwch y llun i ddangos beth sy'n wahanol neu ysgrifennwch amdanynt, ac anfon y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf.**

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Swyn Dafydd, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

3 Gorffennaf: Gŵyl yr ysgolion Sul yng nghanolfan y Morlan am 2.30 o'r gloch, gyda Geraint ac Anna Lloyd, ac Efan Williams

10 Gorffennaf: Oedfa haf yr ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Mae'r Bugail yn awyddus iawn i glywed gan bobl ieuainc yr ofalaeth os ydynt yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r Eglwys. Eir ati wedyn i drefnu Dosbarthiadau Derbyn mewn man canolog, gyda chyd-ddealltwriaeth y rhai a fydd yn barod i'w mynychu. Gwneir trefniadau arbennig ar gyfer y rhai sy'n byw oddi cartre, ac/neu sy'n dilyn cyrsiau prifysgol/addysg bellach.

## *Anrhydeddu John Tudno*


Cafodd yr Athro John Tudno Williams brofiad cwbwl annisgwyl pan gyflwynwyd cyfrol iddo a gyhoeddwyd i'w anrhydeddu a diolch iddo am ei gyfraniad i'r eglwys ac ysgolheictod beiblaidd dros nifer o flynyddoedd. Roedd Ina, ei briod, wedi llwyddo (gyda chymorth y teulu) i gadw'r gyfrinach a'i dwyllo ble roedd yn mynd ddydd Sadwrn, 30 Ebrill. Yn ei ddisgwyl yng ngwesty Llety Parc yr oedd yr Athro Alan Sell (golygydd y gyfrol) a'i briod, nifer o'r rhai a gyfrannodd i'r gyfrol ynghyd â ffrindiau John, gan gynnwys cyd-aelodau o eglwys Seion. Yr oedd y Parch Iain Hodgins, Llywydd y Gymanfa, a'r Parch Bryn Williams, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, yno hefyd.

Cyhoeddwyd y gyfrol, *The Bible in Church, Academy and Culture – Essays in Honour of the Reverend Dr John Tudno Williams* gan Wasg Pickwick, Oregon, UDA. Mae'n cynnwys 12 o erthyglau gan awduron amrywiol, yn eu plith erthyglau gan Brynley F. Roberts ar emynau a'r ysgrythur o safbwynt Cymreig a chan D. Huw Owen ar ddelweddau beiblaidd o fewn traddodiad Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Olrhain datblygiad Coleg Trefeca wna J. Gwynfor Jones yn ei gyfraniad ef ac mae D. Densil Morgan yn ymdrin â hanes diwinyddiaeth yng Nghymru.

Yn y bennod agoriadol mae Alan Sell, a fu'n Athro yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, yn cyfeirio at 'anrhydeddu un ag y mae ei wybodaeth feiblaidd wedi treiddio i'w ffyddlondeb eglwysig ac academaidd a hynny, yn bennaf, o fewn Cymru, y genedl y mae wedi ymrwymo iddi'.

Mae'r gyfrol hon yn darlunio cyfraniad mawr John i astudiaethau academaidd beiblaidd yn ogystal â'i gyfraniad i'r bywyd eglwysig ac i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn arbennig.

Gwasanaethodd y Coleg Diwinyddol o 1966 ymlaen ac ef oedd y Prifathro a gariodd faich cau'r coleg yn 2003.




Yn treiddio drwy'r cwbl – y dysgu, yr astudiaethau, yr ysgrifennu, y pwyllgorau, yn ogystal â'r pregethu a'r addoli o Sul i Sul a'i ffyddlondeb i'w eglwys leol – y mae'r argyhoeddiad o alwad Duw a ffyddlondeb oes i'r alwad honno. Mae'n gyfrol gyfoethog a haeddiannol.

Derbyniodd John radd DD er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 2006, ond mae'r gyfrol hon yn llawnach gwerthfawrogiad o'i fywyd a'i wasanaeth.

Gellir prynu'r gyfrol drwy wefan www.wipfandstock.com: orders@wipfandstock.co

(Addaswyd o'r *Goleuad*, 6 Mai 2011)

## *Capel Seion*



Dathlwyd Sul y Blodau mewn gwasanaeth teuluol yn Seion. Daeth tyrfa luosog ynghyd i ddathlu'r hanes am daith fuddugoliaethus Iesu i Jerwsalem trwy gyfrwng drama gan y plant hŷn, cân gan ddosbarth y plant bach a dwy gân gan y parti merched ynghyd ag eitemau gan unigolion. Addurnodd aelodau'r ysgol Sul ddau fwrdd i ddarlunio digwyddiadau Sul y Blodau. Gwnaed casgliad o £116 tuag at apêl Cartref Cariadus, Misoram.

Yn y lluniau gwelir aelodau'r ddau ddosbarth (Eos yn absennol o'r llun) a pharti canu'r merched (Susan yn absennol o'r llun).






Nos Lun, 22 Mai, daeth criw cwmni teledu Avanti i Gapel y Garn i recordio *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*.




Cafwyd cynulleidfa deilwng a chanu ysbrydoledig dan arweiniad Alan Wynne Jones a'r organydd Llio Penri.

Bydd dwy raglen yn cael eu darlledu – a hynny'r flwyddyn nesaf, mae'n debyg, un o emynau a ddewiswyd gan yr Arglwydd Elystan-Morgan a'r llall yn cynnwys emynau a thonau â chysylltiad lleol yn bennaf.

## *Taith y Crynwyr*

Fore Sadwrn, Mai'r 7fed, daeth mintai o bobl o gapeli'r cylch hwn ynghyd yn y gilfach ar y ffordd ger Dolgellau am mai dyma oedd man cychwyn Taith Gerdded y Crynwyr. Doedd y tywydd ddim yn addawol iawn yn y bore bach, ond doedd hi ddim yn bwrw. Er hynny, o fewn hanner awr i ddechrau cerdded fe ddaeth cawod drom, a nifer fawr o'i chwiorydd i'w dilyn, ac felly y bu hi weddill y diwrnod. Bu'r daith yn brawf ar ddiddosrwydd llawer i anorac! Er hynny, bu'r ffaith i ni glywed y gog, nifer ohonon ni am y tro cyntaf ers blynyddoedd mawr, yn destun cryn lawenydd.

Er gwaethaf y glaw dal i fynd wnaethon ni a rhyfeddu at y wlad a'r hanesion oedd yn cael eu hadrodd i ni. O flaen Dolgun Uchaf y bu ein harhosiad cyntaf i glywed yr hyn oedd gan Miss Catherine James, ein harweinydd, i'w ddweud. Soniodd am y ffaith bod llys canoloesol yn nhŷ Dolgun, sy'n dal mewn cyflwr da, ond dim ond sylfeini Dolserau sydd ar ôl. Dyma gartref y Crynwyr Robert a Jane Owen, a ymfudodd i Bensylfania yn 1697 gyda'u mab, Gruffudd Owen, a ddaeth yn feddyg. Yna ymlaen â ni at Dyddyn y Garreg lle bu'r Crynwyr yn cwrdd am dros ganrif, a throi i mewn i fynwent y Crynwyr a'i beddau unffurf llwyd.

Yn Newisbren Uchaf roedd Dorti Owen yn byw, ac oddi yno yr arferai gerdded i bregethu mewn gwahanol rannau o'r canolbarth. Fe gerddodd i Lundain unwaith. Hi gafodd y weledigaeth i godi Tŷ Cwrdd i'r Cyfeillion, sydd bellach yn gapel o'r enw Tabor.

Gorffennwyd y daith o flaen tŷ urddasol Bryn Mawr, cyn-gartref Rowland Ellis a ymfudodd i Bensylfania yn 1686 am ei fod yn cael ei erlid mor ffyrnig am ei ffydd. Aeth ei gyfaill, Ellis Pugh o'r Brithdir gydag ef, ac ef oedd awdur 'Annerch i'r Cymru', y llyfr Cymraeg cyntaf i gael ei gyhoeddi yn yr Unol Daleithiau. Rowland Ellis roddodd y tir i godi'r Brifysgol ym Mhensylfania a elwir hyd heddiw yn Brifysgol Bryn Mawr.

Oddi yma aeth rhai ohonom i lawr i amgueddfa'r Crynwyr yn Nolgellau, ond ei gwneud hi am y car a dillad sych wnaeth eraill!

Er gwaethaf y glaw bu hon yn daith gofiadwy, a sgyrsiau Catherine James yn galw i gof ymrwymiad a dewrder y Crynwyr yn llawn gwybodaeth ac yn ysbrydoliaeth.

Diolch i Wyn a Judith Morris am drefnu'r daith. Does dim byd tebyg i deithiau cerdded am dynnu pobl at ei gilydd, boed i helpu ei gilydd dros gamfeydd neu drwy nentydd, neu'n syml i sgwrsio wrth gerdded.

*Llinos Dafis*





***Grŵp Help Llaw***

Glynllifon
17, Heol Alun,
Waunfawr

Annwyl Gyfeillion,

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth hael tuag at waith Plas Lluest. Mae'n galondid i ni fel 'Support Group' i weld pobl leol yn cefnogi'r gwaith.

Cawsom deganau eich Grŵp Help Llaw ar gyfer y bore coffi ac yna, derbyn y swm hael o £200 ar ben hynny – wel, mae'n diolch i chi fel grŵp yn fawr iawn.

Erbyn hyn mae'r gwaith ar y byngalo cyntaf bron â gorffen. Mae'r casgliadau presennol yn mynd tuag at yr ail fyngalo, sy'n costio £400,000.

Mae 16 o drigolion ym Mhlas Lluest yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth maen nhw'n ei chael ac mae awyrgylch gariadus a gofalus eu cartref yn eu gwneud yn hapus ac yn ddedwydd.

Gweddïwn am fendith Duw ar holl agweddau'r gwaith pwysig yma.

Mynegaf ein diolchiadau diffuant i chi gan ddymuno pob bendith i chi yn eich gweithgarwch.

Keith Lewis

## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

**3** Yr Athro John Tudno Williams
Noddfa'n ymuno yn y Garn

Gŵyl yr ysgolion Sul yn y Morlan am 2.30 o'r gloch

**10** Oedfa haf yr ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch

Trip yr ysgol Sul

15 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**17** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**24** Dr Rhidian Griffiths
Miss Beti Griffiths

**31** Parch Dilwyn O Jones (bore)
Oedfa'r hwyr i'w threfnu



Cinio Bara
a Chaws

at
Gymorth
Cristnogol

## Awst

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**7** Raymond Davies
Oedfa'r bore yn unig yng Nghapel Noddfa

**14** Parch Lewis Wyn Daniel
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn, Noddfa'n ymuno

**21** Parch J E Wynne Davies
Oedfa gymun, bore yn unig, yng Nghapel Noddfa

**28** Parch M J Morris
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn, Noddfa'n ymuno

***Cymorth Cristnogol***

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Bugail fore Sul, 15 Mai, ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Ymunodd cyfeillion Noddfa â ni yn y gwasanaeth yn ogystal â'r Cinio Bara a Chaws oedd yn dilyn. Rydym yn ddiolchgar i'r Chwiorydd am eu parodrwydd i drefnu'r cinio a gweini wrth y byrddau. Casglwyd y swm o £355.50 tuag at apêl Cymorth Cristnogol.

Yn ychwanegol at hyn, trosglwyddwyd £110, sef casgliad a wnaed ar noson cyflwyniad Cwmni'r Morlan, 'Byd yr Aderyn Bach' i'r gronfa. Diolch am eich haelioni.

## Medi

*Blaenor y Mis: D. Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**4** Parch Reuben Roberts
Noddfa'n ymuno yn y Garn

7 Pwyllgor yr ysgol Sul
Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

9 Swper Haf Bach Mihangel
yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 6 o'r gloch

Taith gerddded yr ysgol Sul tuag at Apêl y Cartref Cariadus

**11** Oedfa'r bore dan arweiniad y Bugail
Yr ysgol Sul yn ailddechrau

Oedfa'r hwyr dan arweiniad y Parch Cen Llwyd

**18** *Sul Croeso Nôl*
Bugail
Oedfa gymun
yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre



**25** Parch Adrian P Williams

Llongyfarchiadau calonnog:

i Wynne a Linda Melville Jones ar enedigaeth ŵyr bach, Twm Bleddyn, mab i Gwion a Manon, a brawd bach i Ianto Jac;

i Alun a Margaret Rees ar enedigaeth wyres fach, Iola, ar 4 Mai, merch i Julian ac Andrea, a chwaer fach i Sam;

i Kathleen Lewis ar gael ei hanrhegu am roi dros 20 mlynedd o wasanaeth gwirfoddol yn siop Barnardo’s Aberystwyth.

***Ysgol Sul y Garn***

Bydd blwyddyn yr  ysgol Sul yn dod i ben gyda dau ddigwyddiad arbennig: gŵyl yr ysgolion Sul yn y Morlan bnawn Sul, 3 Gorffennaf, am 2.30 o’r gloch a thrip yr ysgol Sul ar 10 Gorffennaf – manylion i ddilyn.

Diolch i’r athrawon, y rhieni a’r plant am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn 2010–11. Er hynny, fe fyddem yn hoffi gweld rhagor yn ymuno efo ni i gefnogi’r gwaith pwysig hwn.

Felly, beth am estyn gwahoddiad i unrhyw blant neu ieuenctid rydych yn eu hadnabod i ddod i’r ysgol Sul neu wirfoddoli i fod yn athro / athrawes eich hun? Wrth rannu’r gwaith, ni ddylai fod yn faich ar neb.

Bydd yr ysgol Sul yn ailddechrau fore Sul, 11 Medi, ac fe drefnwyd cyfarfod o’r pwyllgor i lunio rhaglen tymor yr hydref nos Fercher, 7 Medi am 7.30 o’r gloch yn y festri.

Hefyd, os oes gennych set deledu addas ar gyfer y festri nad ydych yn ei defnyddio bellach (ar gyfer chwarae DVDs), byddwn yn falch o glywed gennych.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad,

Marian  (Arolygydd)

## *Noson Os Mêts yn y Borth*

Nos Iau, 16 Mehefin, cynhaliwyd noson hwylus o chwaraeon yng nghanolfan ieuenctid y Borth. Bu i ni gyfarfod ym maes parcio Capel y Garn, a gwneud ein ffordd i'r Borth. Roedd criw egnïol (a chystadleuol!) o ieuenctid yn bresennol, a chafwyd gemau tennis, badminton a phêl-droed dan-do, cyn eistedd i lawr i fwynhau diod oer yn ardal ymlacio a chegin y ganolfan.

Rydyn ni'n gobeithio mynd yn ôl i'r ganolfan yn Borth yn fuan i fwynhau parti haf a barbeciw gyda Chlwb Ieuenctid Capel Seion.

*Efan Miles Williams*

## *Gweddi Haf*

Arglwydd pob gwyliau ac edrych ymlaen,



Arglwydd pob llawenydd ac ymlacio,
pob traeth a phob picnic,
bydd gyda ni i gyd ar ein hamrywiol
lwybrau dros wythnosau'r haf.

Gad i ni weld olion a sibrydion ohonot Ti ymhobman, o Dduw, ac yn y mannau mwyaf annisgwyl. Helpa ni i arafu ac i addasu ar gyfnod o wyliau i fwynhau pob dydd, a phob munud.

Dysga ni i wneud ein crefydd hefyd yn un o edrych ymlaen at ddyddiau gwell i ddod, dyddiau pan gawn weld wyneb yn wyneb â Duw sy'n ddaioni, yn gariad, ac yn bositif. Dysg i ni agor ein calonnau fwy a mwy i'r Duw hwn sy'n Gariad, ac yn allwedd i'n bywydau.

Rho i ni fywyd hapus o edrych ymlaen.

Amen.

(Aled Lewis Evans, *Cristion*, 119, Gorff / Awst 2003)

## *Taith Mari Jones*

Dydd Gwener a dydd Sadwrn, 3 a 4 Mehefin, mentrodd rhyw naw ohonom (ac un ci bach annwyl ac egnïol iawn o'r enw Toss) ar Daith Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala, i gofio am yr ymdrech aruthrol a gyflawnodd y ferch ifanc 15 oed hon yn y flwyddyn 1800 er mwyn prynu Beibl gan Thomas Charles. Mae'r daith ar ei hyd yn gyfanswm o 28 milltir a cheir yr holl fanylion mewn llyfryn deniadol a baratowyd gan Mary Thomas ac a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Beibl yn 2009.

Ar ôl ymweld â Tŷ'n y Ddôl yn Llanfihangel-y-Pennant, lle cafodd Mari Jones ei magu, dyma gychwyn ar y daith trwy ddilyn y llwybrau drwy Gwm Llan a Chwm Tal-y-llyn i Finffordd. Roeddem yn ffodus ei bod yn ddiwrnod braf ac yn weddol fuan ar y daith clywsom y gog yn canu fwy nag unwaith. Roedd y profiad o syllu i lawr ar Lyn Tal-y-llyn a gweld yr eglwys fechan lle priodwyd Mari Jones a Thomas Lewis Jones yn 1813 yn wledd i'r llygaid.

Wedi cyrraedd Minffordd rhaid oedd dilyn y ffordd fawr am ychydig cyn troi i Gwmrhwyddfor ac yna dringo'n raddol ar hyd yr hen lwybr ceffyl islaw'r A487 lle roedd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar y ffordd. Roedd yr haul yn danbaid erbyn hyn ac fe brofodd y rhan yma o'r daith yn waith caled i rai ohonom! Ar ôl gadael Dyffryn Tal-y-llyn, braf oedd cyrraedd Cwm Hafod Oer a cherdded ar hyd y llwybrau gwastad. Erbyn hyn roeddem wedi cyrraedd ardal y Crynwyr ac yn ôl yr wybodaeth yn y llyfryn fe deithiodd George Fox, y Crynwr cyntaf, i'r ardal hon 'nôl yn 1657 a chael gweledigaeth 'y cyfodai Duw bobl iddo'i hun i eistedd dan ddysgeidiaeth'. Mewn dim o dro dyma gyrraedd Gwesty'r Cross Foxes a chael hoe haeddiannol i dorri syched cyn bwrw ymlaen unwaith eto am Fferm Gwanas nes cyrraedd pen y daith am y diwrnod cyntaf yn y Brithdir!

Y bore canlynol, rhaid oedd teithio i'r Bala i adael y ceir yno, cyn dal y bws yn ôl i'r Brithdir i ailgychwyn y daith. Cawsom gerdded am yr awr gyntaf o dan gysgod y coed a mynd heibio man geni Evan Jones, 'Ieuan Gwynedd' (1820–52), gweinidog, emynydd, newyddiadurwr a gwladgarwr enwog. Prynodd ei fam, Catherine Evans, Feibl gan Thomas Charles a thalodd amdano fesul tipyn o'i henillion prin. Cafodd ei alw y 'Beibl Coch' oherwydd i Catherine ddiogelu'r Beibl a'i lapio mewn brethyn coch.

Roedd y rhan nesaf o'r daith yn cychwyn yn Nolfeili ac erbyn hyn synhwyrem fod Llyn Tegid yn agosáu. Wrth gerdded ar hyd y llwybrau sylwem ar safle Hufenfa Meirion ar y ffordd fawr islaw, lle prysur iawn rhwng yr 1930au a dechrau'r 1970au. Hefyd medrem weld un o dollbyrth y ffordd dyrpeg a adeiladwyd rhwng 1750 ac 1805. Erbyn hyn roedd Cadair Idris ymhell y tu ôl inni a gogoniant yr Arennig ac Aran Benllyn i'r chwith ac i'r dde. Dyma gyrraedd Llanuwchllyn a chan fod yr amser yn dechrau tynnu 'mlaen fe benderfynodd pump ohonom mai gwell fyddai dal y bws o Lanuwchllyn i'r Bala. Ond aeth y pedwar arall yn eu blaenau ar hyd ochr y Llyn gan gyrraedd y Bala tua 7 yr hwyr. Llongyfarchiadau iddynt am gerdded y 28 milltir dros y ddau ddiwrnod, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Daith.

Cawsom ddau ddiwrnod bythgofiadwy: cwmni difyr, tywydd braf a sir Feirionnydd ar ei gorau. Mawr yw ein hedmygyedd o ddygnwch Mari Jones yn cerdded yn droednoeth yn ôl ac ymlaen o Lanfihangel -y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl.

Diolch i John Leeding, Rehoboth, Taliesin, am arwain y Daith a sicrhau ein bod wedi dychwelyd adre'n ddiogel. Byddwn yn dilyn ôl traed Mari Jones unwaith eto yn ystod yr haf a'r hydref eleni, dros nifer o wythnosau, mewn pum rhan benodol, oddeutu 5–6 milltir yr un. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â ni, cysylltwch â John Leeding (832672) neu Judith Morris (820939).

## *Priodas Ddiemwnt*



Bennett a Menna ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt

Priododd Menna Bennett (o Maenuwch, Borth) â Bennett Jenkins yng Nghapel y Garn, Bow Street, ar yr 2ail o Fehefin 1951. Y gweinidog yr adeg honno oedd y Parchedig J. Wallace Thomas. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Marine.

Treuliwyd y 30 mlynedd cyntaf yn byw yn Cerrig Caranau, cyn symud i Ynys Capel yn 1981.

Dymunant ddiolch i bawb am eu cyfarchion a'u dymuniadau da, yn enwedig i Janet, Llwynglas, am y gacen arbennig.

*Taith Mari Jones*



Uchod: John Leeding, yr arweinydd gofalgar

Isod: Y cerddwyr wedi cyrraedd pen y daith yn y Bala



## *Pethau'r Capel*

Cefais ail-fyw fy nyddiau cynnar wrth ymweld ddwywaith â'r arddangosfa yn Amgueddfa Ceredigion yn ddiweddar. Efallai i rai ohonoch weld llun o faner ysgol Sul Rehoboth yn *Golwg.* Camgymeriad oedd dweud mai baner o gapel wedi cau yw hi gan fod fy nghyfeillion yn addoli yn y capel o hyd dan arweiniad Wyn, y Bugail. Pan oeddwn i'n mynd i festri Rehoboth i'r ysgol Sul gwelwn ddwy faner fawr ar y muriau, un yn dangos y Deg Gorchymyn a ninnau'n eu hadrodd ar derfyn yr ysgol. Roedd y llall yn fwy, yn 7 troedfedd wrth 8, ac ar un ochr gwelid y geiriau YSGOL SABBOTHOL REHOBOTH, a geiriau Iesu Grist o dan llun ohono yng nghwmni plant: 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi'. Yr ochr arall ceir llun dyn yn gwrthod y ddiod gadarn a'r geiriau 'Gwatwarus yw Gwin' yn ei ymyl. 1894 yw'r flwyddyn ar y gwaelod.




Dim ond unwaith y flwyddyn y gadawai'r faner y festri, ar brynhawn Gwener y Groglith pan fyddai pedwar dyn cryf yn ei chario o flaen plant a phobol y capel fyddai'n gorymdeithio i Dre'r-ddôl. Hanner ffordd yno byddai plant a phobol Soar y Wesleaid gyda'u baner yn dod i gwrdd â ni. Nhw'n troi yn ôl wrth Rehoboth a ninnau wrth Soar neu'r Hen Gapel. Mae'n dda gwybod fod baner Soar ynghadw yn Sain Ffagan. Wedi dychwelyd ceid te a phob math o ddanteithion, chwaraeon, a chyngerdd i gloi gweithgarwch Gwener y Grog. Camgymeriad arall yn *Golwg* oedd dweud bod yr arfer o gludo'r faner wedi dod i ben ddiwedd y 1930au. Daliwyd ati am ddegawd arall.

O gofio y byddem yn adrodd y Deg Gorchymyn i derfynu'r ysgol Sul cofiais i'r diweddar Archesgob Coggan ddweud y byddai dos dda o'r Dengair Deddf yn gwneud byd o les i'n cenhedlaeth ni. Cofiais hefyd am sylw gan y diweddar Barchedig T. Glyn Thomas: 'Y mae gwareiddiad a sylfaenwyd ar y Deg Gorchymyn yn marw am iddo eu torri; aethom i gredu y gallem gicio'r sylfeini o'r neilltu heb ddymchwel yr adeilad a godwyd arnynt'.



O dan faner Rehoboth yn yr arddangosfa gosodwyd tri hen bulpud – un y Garn yn y canol a rhai Horeb, Penrhyn-coch, a Maes-glas, Ysbyty Ystwyth o bobtu iddo. Gwnaeth edrych ar un y Garn imi gofio'r tro cyntaf y mentrais iddo'n nerfus i gyflwyno fy mhregethau cyntaf ar 27 Hydref 1957. Bûm yn pregethu yn y ddau bulpud arall wedyn. Gerllaw mi roedd yna bulpud arall gyda'r adnod o Genesis 28:17 y tu mewn iddo yn wynebu sedd y pregethwr: 'Mor ofnadwy yw y lle hwn'. Rhybudd da i bawb ohonom sy'n cael yr uchelfraint o esgyn i bulpud. Da gweld pulpud-gadair yn yr arddangosfa, un a ddefnyddid ar y maes pan fyddai'r cynulleidfaoedd mawr yn dod ynghyd mewn Cymanfa Bregethu a Sasiwn. Ar wahân i'r pulpudau, diolch am gael gweld sêt fawr capel yr Annibynwyr Nebo, ffordd Trichrug, yno.

Roeddwn yn drist wrth sylwi ar nifer o eitemau yn yr arddangosfa o Gapel y Tabernacl o gofio am y fandaliaid meddw a losgodd yr addoldy hardd lle clywais rai o bregethwyr nodedig Cymru yn traethu neges yr Efengyl. Da oedd gweld lluniau gweinidogion a blaenoriaid y Tabernacl. Da hefyd oedd edrych ar yr harmoniwm a ddefnyddid i gyfeilio i Gôr y Castell ar nosweithiau Sul yn yr haf pan ddeuai cannoedd ynghyd i ganu mawl, yn drigolion ac ymwelwyr. Dechreuwyd ym 1903, a hyd at 1967 casglwyd £7,200 i'w rannu i elusennau. Ymhlith y blychau casglu roedd dau focs casglu tuag at y Genhadaeth Dramor.

Cymwynas yr arddangosfa i mi oedd dwyn i gof ddylanwad 'Pethau'r Capel' a chofio'r ffyddloniaid a'n gwreiddiodd yn y ffydd Gristnogol. Wrth ymadael, teimlwn yn drist wrth feddwl mai mewn amgueddfa yn unig y bydd y cyfan cyn bo hir yn ôl arwyddion trist yr amseroedd. Dewch inni ddyblu diwydrwydd a chofio llinell glo englyn Gerallt Lloyd Owen i'w arwr Llwyd o'r Bryn: 'Daliwch heb laesu dwylo!'

*W J Edwards*

## *Byd yr Aderyn Bach*

Treuliwyd awr ddifyr iawn yng Nghapel y Garn nos Sul, 22 Mai, pan ddaeth Cwmni'r Morlan yno gyda'u cyflwyniad o fywyd a gwaith Waldo Williams, 'bardd yr adnabod a'r gwarchod'.

Trwy ddarlleniadau o farddoniaeth a rhyddiaith cawsom ein hatgoffa o amryfal agweddau ar waith y bardd, yn cynnwys doniolwch ac asbri ei ieuenctid ac yntau'n cydweithio ag Idwal Jones.

Yn ei chyflwyniad hyfryd o'r delyneg 'Y Bws' tanlinellodd Erin Gruffydd ei fedr ddihafal i weld y byd drwy lygad plentyn, ac yn narlleniadau Morys Gruffydd o gerddi megis 'Y Tangnefeddwyr' ac 'Mewn Dau Gae' cawsom dystiolaeth o'r daliadau dwys-ddyngarol a arweiniodd Waldo i wneud safiad gwleidyddol gyda'r canlyniad iddo orfod treulio cyfnod yng ngharchar.

Nid bardd yr ymateb di-feddwl sentimental oedd Waldo, ond dyn oedd yn gweld ac yn rhyfeddu at fawredd pobl yn eu trallod, yn 'lladd ellyllon ffawd â'u ffydd' ac yn 'estyn yr haul i'w plant o'u plyg'. Gwyddai fod mewn pobl ryw gyneddf ryfeddol i ddygymod â'u tynged, ac yn ei ymdrech i roi geiriau at ei gilydd i fynegi hynny fe'n bendithioddd ni â stôr o ymadroddion amhrisiadwy, megis 'neuadd fawr rhwng cyfyng furiau' a'r 'isel gaer' lle gall 'gwiwer gwynfyd wneud ei gwâl', hyd yn oed pan fo'r byd yn chwâl.

Mae'r gor-adrodd ar rai darnau o'i farddoniaeth, yn enwedig 'Cofio', 'Y Tangefeddwyr' a 'Menywod', wedi tueddu i'n gwneud ni'n fyddar i'w mawredd. Anodd deall pam y daeth 'Menywod' ar un adeg i gael ei hystyried yn gerdd addas i blant dan ddeg ei hadrodd. Gwych o beth oedd clywed cyflwyniadau di-rwysg, synhwyrol Morys Gruffydd.

Diolch i Gwmni'r Morlan am droi ein sylw unwaith eto at farddoniaeth y bardd hwn o Grynwr.

*Llinos Dafis*




*Pa Beth yw Dyn?* (detholiad)

Beth yw byw? Cael neuadd fawr
Rhwng cyfyng furiau.
Beth yw adnabod? Cael un gwraidd
Dan y canghennau.

Beth yw credu? Gwarchod tref
Nes dyfod derbyn.
Beth yw maddau? Cael ffordd trwy'r drain
At ochr hen elyn.

Beth yw bod yn genedl? Dawn
Yn nwfn y galon.
Beth yw gwladgarwch? Cadw tŷ
Mewn cwmwl tystion. (*Waldo Williams*)

## *Garnfaldwyn*

Er bod sôn am Gapel y Garn fel eglwys gyfoethog ei doniau, ac iddi fagu diwinyddion pur drwm dros y blynyddoedd, fel y cyfeiriodd y Dr Cynddylan Jones unwaith at 'athrawon nodedig y capel' fel 'Doctoriaid y Garn', eto i gyd dim ond un gweinidog a godwyd o 'had yr eglwys', hynny yw, a anwyd ac a fagwyd yn y gorlan. Y gŵr hwnnw oedd William James, Tynrhos, a ddaeth yn ddiweddarach yn Barchedig Dr Williams James, Manchester. Yn 1856, derbyniwyd llais yr eglwys ar briodoldeb ei alw i'r weinidogaeth. Heb amheuaeth roedd hwn yn benderfyniad doeth a bu canmol mawr ar ei allu fel awdur, pregethwr a gweinidog drwy gydol ei fywyd.

Ond yr oedd yna fachgen disglair arall yn yr eglwys a'i fryd ar y weinidogaeth yr un adeg. Mab Caergywydd oedd hwnnw, ac yn gymydog i William James, Tynrhos. Dyma a ddywed y Parch T J Morgan yn y gyfrol *Cofiant a Phregethau y Parch Williams James*:

> Cafodd ef (sef William James) bob parodrwydd gan ei eglwys i fyned ymlaen (am y weinidogaeth). Ac y mae y parodrwydd yn fwy arwyddocaol pan gofiwn fod yn yr eglwys hon, yr un adeg (1865), ŵr ieuanc, ieuengach nag ef, oedd yn awyddus i fyned yn bregethwr, a'r hwn o ran galluoedd meddyliol a llithrigrwydd ymadrodd oedd yn fwy disglaer nag ef. Yr oedd hwn, fel dysgwr yn cario y cwbwl o'i flaen, ac hefyd er mor ieuanc, yn dechreu ennill enwogrwydd fel bardd. Eto, er y pethau hyn oll, yr oedd yn methu dyfod i fyny â'r safon ofynedig gan y brodyr; ac oherwydd yr oerfelgarwch a ddangosid at ei ymgeisyddiaeth, cefnodd ar Ymneillduaeth a chyfeiriodd ei ffordd i offeiriadaeth Eglwys Loegr.

Thomas Edwards oedd enw'r gŵr ifanc, a anwyd yn 1836 yn fab i David a Mary Edwards, Caergywydd. Yn ogystal â ffermio, roedd ei dad, David Edwards, yn borthmon, a bu bron â chael ei saethu unwaith gan leidr pen-ffordd ger Dolgau.

Nid yw'n debyg fod ei deulu wedi suro na chefnu ar yr achos ym Mhenygarn wedi'r cais aflwyddiannus. Yn wir, bu ei dair chwaer, sef Eliza (Pencefn), Ann (Maelgwyn House) a Mary (Maenuwch) yn ddi-syfl eu ffydd ar hyd eu bywyd, a chyfeiriodd y Parch Christmas Lloyd yn ddiweddararch atynt fel 'tair derwen yn eu heglwys'. Mae nifer o'u disgynyddion o hyd yn yr ardal, rhai ohonynt yn aelodau yng nghapeli'r ofalaeth hon.

Enw barddonol Thomas Edwards oedd 'Garnfaldwyn'. Ychydig iawn o hanes sydd gennym amdano, llai fyth o'i farddoniaeth sydd wedi goroesi.

Ofnir nad dyma'r unig dro iddo gael ei wrthod yn ystod ei fywyd. Yn 1858 ysgrifennodd at Eben Fardd yn gofyn iddo'i gyflwyno i'r Archdderwydd yn Eisteddfod Fawreddog Llangollen y flwyddyn honno. Dywed yn ei lythyr ei fod wedi llunio miloedd o linellau barddonol, a'i fod wedi cynnwys (yn y llythyr) 'ychydig engraffau o bob un o'r pedwar mesur ar hugain o'm cyfansoddiad fy hun' er mwyn profi ei gymhwyster i gael mynediad i'r Orsedd, mae'n siŵr. Am ba reswm bynnag, ni fu'r cais yn llwyddiannus. Pedair llinell yn unig a welais i o'i waith, a hynny drwy law fy mam-gu.

Gwyddom iddo fod yn ddisgybl mewn ysgol yn Llandre, sef yn hen ysgoldy'r eglwys. Aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac yn 1859 enillodd wobr yn Eisteddfod Llambed (yn ôl y gyfrol *Llais Llwyfan Llanbed* gan Goronwy Evans) a hynny am 'Cerdd Militia Sir Aberteifi'. Bu'n ficer yn Eglwys Llanddewibrefi am gyfnod, ac yno y bu farw ei wraig gyntaf ar enedigaeth plentyn. Ysgrifennodd farwnad iddi, ac roedd copi o'r gerdd gan y ddiweddar Mrs Gwen Davies, Dolcletwr, Taliesin, disgynnydd o'r un teulu. Dywedodd y diweddar Dewi Morgan wrthyf iddo weld cerdd o'i waith i Gastell Rhuddlan, a bod gan T Gwynn Jones dipyn o olwg arni.

Priododd eilwaith ac ymfudodd ef a'i deulu i Wisconsin, ac yn ddiweddarach urddwyd ef yn esgob. Tipyn o anrhydedd i fachgen a gafodd ei wrthod gan ei bobl ei hun yng Nghapel y Garn. Tua'r un adeg ymfudodd dau o'i neiaint, David a Morgan, o Bencefn i Edwardsville, Pennsylvania, a bu'r ddau'n flaenoriaid yng nghapel y Parch T C Edwards, 'Cynonfardd', a hyd heddiw cynhelir eisteddfod gan yr aelodau, a gelwir hi'n 'The Rev T. C. Edwards Memorial Eisteddfod'. Mae un o orwyrion David, sef Joshua Morgan Thomas, newydd orffen ei arholiadau terfynol i fod yn offeiriad ym Mhennsylvania.

Tybed ai dyma'r sgôr terfynol yn hanes Eglwys y Garn:
Gweinidog – 1, Esgob – 1?

*Vernon Jones*

***Arddangosfa Pedwar Canmlwyddiant Beibl y Brenin Iago***
Ystafell Hengwrt, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
tan 10 Medi 2011

***Cyflwyniad: Beibl y Brenin Iago a Beiblau eraill***

*Dydd Llun, 25 Gorffennaf am 12 o'r gloch*

Cyflwyniad arbennig am Feiblau yn ystafell arddangos Hengwrt, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd y cyflwyniad yn trafod Beibl Saesneg y Brenin Iago, Beibl Mari Jones a gweithiau eraill. Mae'r cyflwyniad yn cyd-fynd â digwyddiad 'The People's Bible' a gynhelir yn Ystafell Addysg y Llyfrgell ar 23 Gorffennaf.

Cynllun ar y cyd rhwng Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yw 'Beibl y Bobl', a'i nod yw llunio etifeddiaeth unigryw i'r dyfodol.

Mae'n rhoi cyfle i bawb gyfrannu at ysgrifennu'r Beibl â llaw, gan ddechrau yn Llyfr Genesis a gorffen ar ddiwedd Llyfr y Datguddiad. Bydd cyfle i chi ysgrifennu dwy adnod o leiaf, a hynny gan ddefnyddio pen ddigidol. Rhoddwyd cychwyn i'r prosiect yng Nghastell Caeredin ar 19 Mehefin, a bydd yn ymweld â nifer o leoedd drwy Brydain – yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru – ac yn gorffen yn Abaty Westminster ar 16 Tachwedd. I ddarllen mwy am y prosiect, ewch i www.thepeoplesbible.org/.

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug, Capel Seion (01970 880489)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 11 Medi:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com